# Cronfa Goffa Hywel Teifi

Diolch am gefnogi gwaith a gweledigaeth Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe.


Academi Hywel Teifi | Prifysgol Abertawe Swansea University

Mae Cronfa Goffa Hywel Teifi yn codi incwm ychwanegol i gefnogi prosiectau a darparu cyfleoedd ac adnoddau fydd yn newid bywyd ein myfyrwyr a chynorthwyo'r Brifysgol i weithredu fel sefydliad sydd yn agor drws ar ddyfodol disglair i Gymry Cymraeg. I godi arian i'r Gronfa, mae Academi Hywel Teifi wedi comisiynu yr artist seramig arobryn Lowri Davies i gynllunio plât arbennig i goffau cyfraniad unigryw a gwerthfawr Yr Athro Hywel Teifi Edwards i addysg a diwylliant Cymru .

Nifer cyfyngedig o'r platiau coffa sydd ar gael - 150 yn unig! Mae'r cynllun yn cynnwys englyn o waith y Prifardd Alan Llwyd 'am yr Academi a sefydlwyd er cof am Hywel gan ddarlunio hefyd aberoedd dwy afon sy'n cynrychioli'r ardaloedd a oedd mor agos at ei galon - Aberarth ac Abertawe.

Mae Academi Hywel Teifi yn hynod falch i Lowri Davies, enillydd y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain yn 2009, dderbyn y comisiwn arbennig hwn, a gobeithiwn y byddwch yn cefnogi Cronfa Goffa Hywel Teifi drwy archebu'r plât coffa. **Pris y plât coffa yw £75**, gan gynnwys costau cludiant.

---




Enw llawn: ...........................................................................................

Cyfeiriad: ...........................................................................................

...........................................................................................

Côd Post: ...........................................................................................

Rhif ffôn: ...........................................................................................

Cyfeiriad e-bost: ...........................................................................................

Hoffwn dalu â (ticiwch):

Siec ☐ Visa ☐ Mastercard ☐ Switch/Maestro ☐

Sieciau'n daladwy i: **Brifysgol Abertawe**

Rhif y cerdyn:

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Rhif diogelwch: ☐☐☐ (3 digid olaf y rhif ar y stribyn llofnod)

Dyddiad cychwyn: ☐☐ / ☐☐

Dyddiad dod i ben: ☐☐ / ☐☐ Rhifyn: ☐☐

Enw Deiliad y Cerdyn: ...........................................................................................

Llofnod: ...........................................................................................

Dyddiad: ...........................................................................................

Ticiwch yma os oes angen derbynneb arnoch ☐

**Diolch am gefnogi Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe.**


Am ragor o wybodaeth ynglyn â rhoi rhodd yn eich ewyllys, cysylltwch â Swyddfa'r Academi drwy e-bostio academihywelteifi@abertawe.ac.uk neu drwy ffonio +44 (0)1792 606535. Dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau at: Swyddfa Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP.



Mae Prifysgol Abertawe'n elusen gofrestredig Rhif: 1138342


Os nad ydych chi'n hapus i dderbyn gwybodaeth bellach am yr Academi yn y dyfodol, ticiwch y blwch ☐